**Rôl-ddisgrifiad: Partneriaid Ymchwil sy'n gysylltiedig â Ffrwd Waith**

Ar hyn o bryd, mae gennym ni 5 o Bartneriaid Ymchwil ac un Partner Ymchwil Arweiniol. Rydyn ni wedi'u rhoi i weithio gydag Arweinwyr Rhaglenni yn y strwythur newydd ar sail eu cysylltiad, profiad a diddordebau blaenorol. Hefyd, rydyn ni'n penodi Partner Ymchwil i weithio yng Ngogledd Cymru gyda'r ymchwilwyr yno. Dyma fydd eu rôl:

## Cyffredinol

Bod yn adnodd ar gyfer Arweinwyr Meysydd ac Arweinwyr Rhaglenni yng Nghanolfan Ymchwil Canser Cymru wrth ddatblygu gwaith cynnwys cleifion a'r cyhoedd yn eu hymchwil a bod yn 'gyfaill beirniadol'.

## Cyfrifoldebau

Darparu cyngor a chyfarwyddyd fel bo'n briodol i'r Ganolfan ar ddatblygu a monitro dull strategol cyffredinol o fynd ati i gynnwys cleifion a'r cyhoedd a datblygu model cynaliadwy o weithgarwch cynnwys cleifion a'r cyhoedd.

Datblygu cynllun gweithredu wedi'i flaenoriaethu a ddyfeisir ar y cyd ag Arweinwyr Rhaglenni. Mae hyn yn debygol o gynnwys:

- hybu Gweithdrefnau Gweithredu Safonol ar bynciau penodol yn ymwneud â chynnwys y cyhoedd, fel recriwtio, hyfforddiant a chyllid.
- gweithio gydag Arweinwyr Rhaglenni i sicrhau y cydymffurfir â Safonau Cenedlaethol y DU ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd.
- Gorffen unrhyw brosiectau parhaus sydd heb eu gorffen hyd yma o'r 5 mlynedd blaenorol

Cymryd rhan mewn prosiectau sy'n torri ar draws y ddau Faes trwy gytundeb ag Arweinydd y Rhaglen.

Nodi arfer da wrth gynnwys cleifion a'r cyhoedd a rhoi adborth am hyn i'r Tîm Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd i'w ledaenu ledled Canolfan Ymchwil Canser Cymru ac yn fwy eang. Hefyd, helpu i ddatblygu dogfennaeth briodol i gefnogi datblygu arfer da wrth gynnwys cleifion a'r cyhoedd.

Cefnogi gwaith y Grŵp Prosiect wrth roi offeryn Asesu Effaith arfaethedig ar waith pryd bynnag y mae hwn yn cael ei dreialu yn y Ganolfan a chofnodi enghreifftiau o effaith yn eu gwaith eu hunain yn yr adroddiad bob 4 mis i'r Grŵp Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd.

Gweithredu fel llysgennad ar ran Canolfan Ymchwil Canser Cymru.

Adolygu cynnydd yn eu Ffrydiau Gwaith yn flynyddol gyda'r Partner Ymchwil

Arweiniol a'u Harweinwyr Rhaglenni.

**Adnoddau**

Bydd y Partner Ymchwil yn derbyn honoraria ar gyfer hyd at 35 awr y flwyddyn, yn ogystal ag amser a dreulir mewn cyfarfodydd cynnwys cleifion a'r cyhoedd bob 4 mis i wneud y rôl hon, yn ogystal ag unrhyw amser ychwanegol cytunedig ar gyfer dyletswyddau ychwanegol y gellir ymgymryd â nhw mewn cytundeb â'r Partner Ymchwil Arweiniol. Cytunir ar amseriadau gydag Arweinwyr Rhaglenni.

**Cefnogaeth**

Bydd y rôl hon yn galw am weithio'n agos ag Arweinwyr Rhaglenni Canolfan Ymchwil Canser Cymru a bydd yn cael cefnogaeth y Tîm Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd: Partner Ymchwil Lleyg Arweiniol, Partner Academaidd a Swyddog Prosiect Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd. Bydd pob Partner Ymchwil yn cael mentor dynodedig ac yn cael cyfarfod adolygu anffurfiol blynyddol â'r Partner Ymchwil Lleyg Arweiniol i drafod cynnydd, unrhyw broblemau sy'n codi ac anghenion hyfforddi. Bydd cefnogaeth bellach yn cael ei darparu trwy gefnogaeth gan gymheiriaid yn y cyfarfodydd grŵp bob 4 mis a Thîm Cynnwys y Cyhoedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Bydd disgwyl i'r Partneriaid Ymchwil ddilyn yr hyfforddiant y bydd Canolfan Cefnogi a Chyflenwi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn ei gynnig sy'n berthnasol i'r rôl.